

Rhagair

Croeso i'n hadroddiad Hunanasesu a Llesiant Blynyddol ar gyfer 2024/2025. Mae'r adroddiad yn darparu asesiad o ddarpariaeth gwasanaethau drwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys yr hyn yr ydym wedi'i wneud yn dda ac, yn bwysicach fyth, lle mae angen gwelliannau pellach. Ffocws yr hunanasesiad yw sut yr ydym yn cyflawni yn erbyn blaenoriaethau Cynllun Corfforaethol y Cyngor, a elwir yn Amcanion Llesiant.

Yr adeg hon y llynedd roeddem yn dechrau ystyried cynlluniau arloesol i weithio'n agosach gyda Chyngor Torfaen, trwy Brif Weithredwr a rennir, am 'gyfnod darganfod' cychwynnol o 9 mis. Byddai'r cyfnod archwiliadol hwn yn ystyried y potensial ar gyfer effeithlonrwydd, adnoddau a all weithio ar raddfa fawr, a'r potensial ar gyfer cynyddu arloesi a chreadigrwydd ar draws y ddau awdurdod. Mae llwyddiant y 'cyfnod darganfod' wedi arwain atom yn ymrwmo i drefniadau parhaol gyda Chyngor Torfaen. Yn wyneb galw cynyddol, yn enwedig mewn gofal cymdeithasol, a heriau ariannol cynyddol, gwnaed y penderfyniad, ochr yn ochr â Thorfaen, i ymrwmo i 'fodel ffederal' o ddarparu gwasanaethau. Mae hwn yn ymateb newydd a chyffrous i'r heriau cynaliadwyedd y mae'r sector cyhoeddus cyfan yng Nghymru yn eu hwynebu.

Mae'r Cyngor yn edrych i leihau'r anghydraddoldeb a brofir o fewn y Fwrdeistref ac i wella llesiant cyffredinol ar draws Blaenau Gwent. Mae ymyrraeth gynnar ac atal, gwella gwydnwch a llesiant unigolion a chymunedau, a mynd i'r afael â phenderfynyddion ehangach iechyd, i gyd yn rhan o strategaeth ariannol tymor canolig a Chynllun Corfforaethol y cyngor. Drwy weithredu Egwyddorion Marmot a dod yn Gyngor Marmot ochr yn ochr â Thorfaen, i ganolbwyntio ar ymyrraeth gynnar ac atal, mae'n rhoi'r cyfle gorau inni newid i fynd i'r afael â heriau anghydraddoldeb iechyd, gwydnwch a chynaliadwyedd. Drwy gydweithio â Thorfaen, mae ein siawns o lwyddo yn gwella ymhellach. Mae'r dull hwn yn arloesol ac yn dangos ymhellach ein hethos o feddwl am sut i fynd i'r afael â'n heriau mewn ffordd wahanol.

Wrth symud ymlaen i 2025/26 byddwn yn ymdrechu i rymuso ein trigolion ymhellach, gan roi pŵer gwneud penderfyniadau ystyrlon i'n cymunedau, gan roi llais gwirioneddol iddynt ar ble mae adnoddau'n cael eu gwario yn eu hardal, gan annog pobl leol i gydweithio fel partneriaid cyfartal wrth gynllunio, darparu a gwerthuso gwasanaethau'r cyngor. Byddwn yn edrych i ffurfioli ein dull, trwy 'fargen' newydd gyda thrigolion, gan nodi'r hyn y gall pobl ei ddisgwyl gan y Cyngor a sut y gall trigolion wneud eu rhan i'n helpu i gyflawni ein cenadaethau cyffredin.

Rydym yn anelu at ddyfodol heb anghydraddoldeb, lle mae pawb yn ffynnu mewn cymuned deg, gynhwysol a gwydn. I gyflawni hyn, rhaid inni anelu at greu newid parhaol trwy feithrin ymddiriedaeth, meithrin cyfrifoldeb a rennir, a gyrru arloesi trwy gydweithio cryf.

Rydym yn gwerthfawrogi pawb yn ein sefydliad ac, wrth i ni symud ymlaen, mae'n galonogol gwybod y gallwn ddibynnu ar ymroddiad ein holl staff yn gweithio ochr yn ochr â phartneriaid, grwpiau cymunedol, gwirfoddolwyr ac aelodau etholedig i barhau i lunio ein stori lwyddiant.



**Y Cyngorydd Stephen
Thomas**

Arweinydd y Cyngor



Stephen Vickers

**Prif Weithredwr ar
y Cyd**

